Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion

# Azathioprine

# Uned Llygaid

---

**Pam rydw i'n cymryd Azathioprine?**
Rydych wedi derbyn y cyffur hwn i helpu'ch cyflwr. Nid poenladdwr mohono ac nid yw'n gweithio'n gyflym ond fe all helpu gyda'ch symptomau dros gyfnod hir.

**Sut mae'n gweithio?**
Mae Azathioprine yn gweithio drwy leddfu llid. Mae'n gwneud hyn drwy weithio ar gelloedd yn eich system imiwnedd. Mae'n bosibl y bydd angen aros hyd at 2-3 mis i wella'ch symptomau.

**Pa ddos dylwn ei gymryd?**
Mae dau gryfder o Azathioprine ar gael, 25mg a 50mg. Fel arfer mae angen ei gymryd ddwywaith neu dair y dydd gyda bwyd. Bydd eich dos yn dibynnu ar eich cyflwr a'ch pwysau ac efallai y caiff ei gynyddu maes o law.

**A oes sgil-effeithiau?**
Gall pob cyffur gael sgil-effeithiau, er nad yw'r rhan fwyaf o gleifion yn eu cael. Dywedwch wrth eich meddyg os bydd unrhyw un neu rai o'r rhain yn taro:-

- Cyfog
- Dolur rhydd
- Brech ar y croen

Weithiau, gall Azathioprine effeithio ar eich gwaed a'ch afu.

**Fydd angen cael profion penodol tra byddaf yn ei gymryd?**
Bydd eich meddyg yn trefnu eich bod yn cael profion gwaed rheolaidd i wirio a oes effaith ar eich gwaed neu'ch iau. Byddwch yn cael y profion hyn amlaf yn ystod blwyddyn gyntaf eich triniaeth.

**Alla i gymryd meddyginiaethau eraill tra ydw i ar Azathioprine?**
Gall rhai cyffuriau adweithio ag e. Dylech ddweud wrth y meddyg sy'n eich trin eich bod ar Azathioprine. Ni ddylech gymryd cyffuriau 'wedi eu prynu wrth y cownter' heb wirio'n gyntaf gyda'ch meddyg neu fferyllydd?

**A allaf gael fy imiwneiddio tra fy mod ar Azathioprine?**
**Dylech osgoi cael eich imiwneiddio gyda brechiadau byw fel:**

- Polio drwy'r geg
- Rwbela (y frech Almaenig)
- Y Clefyd Melyn
- Tyffoid drwy dabledi
- Y Diciáu

**Mae'n ddiogel cael eich imiwneiddio am:**

- Hepatitis
- Ffliw
- Tetanws
- Niwmofrechiad
- Meningofrechiad
- Polio drwy bigiad
- Tyffoid drwy bigiad

**Oes unrhyw beth arall y dylwn ei osgoi?**
Ceisiwch beidio bod mewn cyswllt â phobl sydd â brech yr ieir neu'r eryr, yn enwedig os nad ydych wedi cael y naill neu'r llall eich hun. Os byddwch yn dal y naill neu'r llall, rhowch y gorau i gymryd Azathioprine ac ewch am gyngor meddygol.

**Ydw i'n gallu yfed alcohol tra ydw i ar Azathioprine?**
Gallwch, yn gymedrol. Ystyrir bod yfed cymedrol yn golygu hyd at 10 uned yr wythnos. mae 1 uned yn hanner peint gwrw cryfder arferol, 1 gwydraid o win, 1 mesur gwirod

**Ydy Azathioprine yn effeithio ar ffrwythlondeb neu feichiogrwydd?**
Rydym yn argymell i unrhyw ferch a all esgor plentyn sy'n cymryd triniaethau gwrthimiwnaidd osgoi mynd yn feichiog gan y gall rhai cyffuriau gynyddu'r risg o ddiffygion geni a/neu broblemau datblygiadol. Gallai fod angen i ddynion ar driniaethau gwrthimiwnaidd hefyd fod yn ofalus.

Mae'r ffurf fwyaf priodol ar atal genhedlu'n dibynnu ar y meddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd, felly gofynnwch i ni am gyngor. Rhowch wybod a ydych yn bwriadu dechrau teulu fel y gallwn drafod opsiynau triniaeth â chi.

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau o ran y cyffur, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu Adran y Llygaid yn Ysbyty Brenhinol Gwent.

Atgyfeiriadau brys:- 01633 – 238856
8am – 6pm

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English".**